# Cenn@d

MAI 10 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 115


## Wythnos Cymorth Cristnogol, 14–20 Mai 2023

Mae'r cynnydd mewn prisiau yn effeithio ar bobl yma yng Nghymru ac ar draws y byd.

Ac mae ffermwyr ym Malawi yn talu'r pris am yr argyfwng byd-eang hwn. Fe fu i brisiau bwyd, tanwydd a ffioedd ysgol ddyblu yno dros y 12 mis diwethaf. Ar ben hynny mae ffermwyr sy'n gweithio'n galed yn gweld eu cnydau'n methu wrth i'r argyfwng hinsawdd ddod â thywydd mwyfwy cyfnewidiol yn ei sgil.

Bob blwyddyn, yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, rydyn ni, bobl y Deyrnas Unedig, yn camu allan mewn cariad gyda'n cymdogion byd-eang i ddathlu ein bod yn benderfynol o newid y byd, drwy ein rhoddion, ein gweddïau a'n gweithredoedd.

Eleni, yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol (14–20 Mai), byddwn yn sefyll gydag Esther a Jen a'u teuluoedd ym Malawi – merched penderfynol iawn sydd am i'w plant wireddu eu breuddwydion. Merched cryf a gobeithiol sy'n barod i weithio dros newid mawr ydyn nhw.

Gall eich rhoddion yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni helpu ffermwyr ym Malawi i blannu hadau gwell, sicrhau pris tecach am eu cynhaeaf ac adeiladu dyfodol hapusach ar gyfer eu plant. Gallwch wylio'r fideo yma i gael blas ar y gwaith ym Malawi: Christian Aid Week 2023 - Bread Ad




Eleni eto, rydym yn ddiolchgar i Gymorth Cristnogol am baratoi deunyddiau ac adnoddau i'w defnyddio mewn gwasanaeth yn ystod yr wyrthnos. Gallwch archebu copïau o'r adnoddau gan gynnwys amlenni a phosteri ar lein: Christian Aid Week Resources - Christian Aid neu fynd ati i'w lawrlwytho yma: Christian Aid Week 2023 - Worship - Christian Aid

### Galwad i addoli

(yn seiliedig ar Salm 47)
Curwch eich dwylo, yr holl bobloedd.
**Gwaeddwch yn llawen wrth addoli Duw.**
Mae Duw wedi esgyn gyda gwaedd.
**Canwch fawl i'r Duw goruchaf.**
Duw sy'n teyrnasu dros yr holl ddaear.
**Addolwn Dduw gyda'n holl galon.**

### Gweddi wrth ddynesu

Dduw'r creawdwr,
rwyt wedi plannu hedyn cariad yn ein calon,
yn ein henaid, yn ein bywyd.
Rydym yn dyheu am lewyrch dy bresenoldeb i'n tynnu'n agosach atat ti ac at ein gilydd,
wrth inni uno gyda'th bobl ar bob adeg ym mhob man i addoli a gwasanaethu.
Cyffeswn yr adegau aml hynny pan fuom yn dir caregog,
yn rhy galed i werthfawrogi hedyn bach,
fel gwên hael, a gair twymgalon.
[*Merched*] Rwyt yn ein meithrin fel cymuned.
[*Dynion*] Rwyt yn ein meithrin fel cymuned.
[*Pawb*] Rwyt yn ein meithrin fel cymuned.
Cyffeswn yr adegau aml hynny pan fuom yn dir caregog,
yn rhy galed inni weld y tu hwnt i'n dyheadau hunanol
ac am inni dderbyn yn rhwydd fyd sy'n mygu breuddwydion
y rhai sydd â llai o rym a chyfoeth.
Greawdwr Dduw,
unwaith eto, rwyt wedi plannu hedyn cariad yn ein calon,
yn ein henaid, yn ein bywyd.
Deuwn yn agos heddiw gan wybod bod maddeuant
yn dyfrhau'r had ac yn ein meithrin gyda grym dy Ysbryd i dyfu,
i ffynnu ac i ddwyn ffrwyth dy gyfiawnder nawr ac am byth.
Amen.

### Eiriolaethau



Dywedodd Esther Saizi wrth Gymorth Cristnogol: 'Pan fu farw fy ngŵr y llynedd, roedd yn adeg anodd. Torrodd fy nghalon. Yn y diwedd, wrth imi benlinio a gweddïo ar Dduw, roeddwn yn gwybod ei fod gydag ef a bod rhaid imi symud ymlaen. Penliniais a gweddïo y byddai Duw yn fy helpu.' Gan lawenhau yn yr ateb i weddi Esther ac yn hyderus yng ngrym gweddi i newid y byd, gweddïwn gyda'n gilydd. Offrymwn weddi o eiriolaeth dros bobl o amgylch y byd sy'n dioddef tlodi ac anghyfiawnder gan gofio'r pwyntiau hyn:

- Her chwyddiant uchel sy'n ei gwneud hi'n anodd i bobl fforddio angenrheidiau pob dydd
- Pobl sy wedi eu heffeithio gan drychinebau naturiol, fel sychder, newyn a llifogydd
- Effaith yr argyfwng hinsawdd, yn enwedig pan fo'n difetha cnydau angenrheidiol
- Esther Saizi a merched tebyg iddi sy'n dod â'u cymunedau at ei gilydd
- Ffermwyr sy'n cyflenwi bwyd angenrheidiol i'w cymunedau
- Cwmni cydweithredol sy'n rhoi mwy o rym i bobl dros eu bywyd eu hunain
- Diwedd i ecsbloetio economaidd gan fusnesau mawr.


Cynhadledd eglwysig ryngwladol arall? Tudalen 2
O'r byd a'r betws Tudalen 3
Arddangos hyder cenhadol Wcráin Tudalen 4

# Cynhadledd eglwysig ryngwladol arall?

**Cynhadledd Ewrop CWM, y Cyngor Cenhadol Byd-eang, yn Amsterdam**

E-bost oedd e, gan Nan Wyn Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a hynny ddechrau Mawrth, yn holi tybed a fyddwn yn fodlon bod yn un o gynrychiolwyr yr eglwys mewn cynhadledd yn Amsterdam. 'Cynhadledd eglwysig, ryngwladol arall?' meddwn innau wrthyf fy hun, gan gofio'r profiadau da yng Nghyngor Eglwysi'r Byd ddiwedd haf diwethaf. A dyma gytuno yn unionsyth i fynd i gynhadledd Ewrop CWM, y Cyngor Cenhadol Byd-eang, ddiwedd Ebrill – tridiau yn trafod gwaith CWM ac yn ymweld â phrosiectau yn y ddinas.

Roedd yna gwmni difyr o Gymru: Nan Wyn ac Anna Jane Evans o blith y Presbyteriaid, a Jill Hailey-Harries, Beti-Wyn James a Dyfrig Rees o Undeb yr Annibynwyr. Roedd dechrau amgyffred lled gwaith CWM yn beth amheuthun. Deuthum i sylweddoli eu bod yn pwysleisio neges gyflawn Crist, yn cynnwys profiadau personol, profiadau cymunedol, cymdeithasol, gwleidyddol a llawer mwy – mae eu cenhadaeth yn cynnwys y cyfan. Adroddodd yr aelodau hanes eu prosiectau gwahanol, a bu trafod ar lwyddiannau, anawsterau a rhwystredigaethau yn y gwaith.

Ond er mor ddifyr y trafod roedd yr ymweliad â phrosiect yn Amsterdam yn llawer iawn mwy buddiol. Ymweld ag eglwys newydd, arloesol oeddem ni, sef eglwys yn Betondorp. Ardal gymharol ddifreintiedig yw Betondorp a phrin fod unrhyw gysylltiad rhwng yr eglwys a'r ardal cyn i Margietha Reinders, y gweinidog, ddechrau gweithio yno. Nid eglwys gyffredin mo hon, ond un sydd yn gweithredu yn gymdeithasol ac yn cynnig cymorth i bobl, beth bynnag fo'u hangen. Nid oes ganddynt adeilad fel y cyfryw, dim ond cyfarfod yn unrhyw adeilad oedd ar gael iddynt. Fe fuom ni'n trafod yr eglwys gyda Margietha yn y dafarn, er enghraifft.

Roedd hi'n disgrifio'r eglwys fel un sydd yn cyffwrdd â bywyd bob dydd pobl, yn trafod eu problemau, yn trafod eu gobeithion, ac



Cynrychiolwyr o Gymru yng Nghynhadledd CWM – o'r chwith i'r dde: Beti-Wyn James, Anna Jane Evans, Nan Wyn Powell-Davies, Jill Hailey-Harries, Dyfrig Rees a Gwen Down

yn gosod hynny yng nghyd-destun cariad Duw a'r posibiliadau y mae'r cariad hwnnw yn ei agor. Cofiwch, ar un ystyr roedd yn braf ei chlywed yn trafod problemau digon tebyg i eglwysi yng Nghymru hefyd.

Roedd cyfle i grwydro yn ogystal, ac fel grŵp cawsom ein tywys ar hyd Taith Etifeddiaeth Ddu yn y ddinas, hyn i gyd-fynd â'r trafod a fu ar ganlyniadau caethwasiaeth. Roedd yr Iseldiroedd, fel y Deyrnas Unedig, yn ganolfan masnachu caethweision, a'r amgueddfa yn tystio i hynny. Rhaid i ni gofio ein hanes a sicrhau nad ydym yn dyrchafu pobl oedd yn ymelwa ar y fasnach ofnadwy yma.

Cynhadledd bur wahanol i Gyngor Eglwysi'r Byd oedd hon yn Amsterdam, ond un oedd yn agoriad llygaid ac yn brofiad gwerthfawr dros ben.

*Gwen Down*

*(Cyhoeddwyd gyntaf yn Perthyn: Cylchgrawn Capel y Morfa ac Ebeneser Penparcau, Mai 2023)*

## Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch y Frenni

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu arbennig yng nghapel Blaen-ffos ar Sul olaf mis Ebrill. Diolch yn fawr iawn i'r arweinydd Rhys Griffiths, i'r organyddes Wendy Lewis, y llywyddion Iona Harries, Huw John a'r Parchedig Gareth Morris, ac i bawb fu'n cymryd y rhannau arweiniol, y stiwardiaid a'r chwiorydd fu wrthi'n paratoi bwyd hyfryd.



## Penodiad newydd i Undeb Bedyddwyr Cymru

Mae'r Undeb yn falch o gyhoeddi bod Sioned Graves wedi ei phenodi i rôl Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu. Mae Sioned yn disgrifio'i hun fel 'cenhades ifanc sydd yn caru Iesu fel ei phrif alwad, ac yn gweddïo am gael gweld teyrnas Dduw yn dod i Gymru'. Ar hyn o bryd mae'n gorffen interniaeth ddwy flynedd yn Durham gyda Burn 24/7 yn arwain mentrau cenhadaeth ac addoli yn y ddinas ac yn gwirfoddoli mewn prosiectau cenhadol cymunedol. Mae Sioned yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ôl astudio yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Caerdydd, ac wedi ennill ei gradd ym Mhrifysgol Durham. Cofiwch Sioned yn eich gweddïau wrth iddi ddechrau yn y rôl hon yn yr haf.

## Grantiau i Eglwysi

Mae'r elusen Gristnogol Through the Roof wedi creu tudalen we i ddangos i eglwysi a gweinidogaethau ble i ddod o hyd i gyllid ar gyfer gwaith adeiladu i wella mynediad i bobl anabl. Mae ar gael nawr ar eu gwefan ac o ddilyn y ddolen hon: **https://bit.ly/ObtainFunding**

# O'r byd a'r betws

## 'Y Brenin Tlawd'

Bydd llawer o drigolion gwledydd Prydain yn datgan safbwyntiau gwahanol am y frenhiniaeth fel sefydliad, ac nid gogwydd grefyddol na gwleidyddol fydd yn gyfrifol am hynny. Ychydig o wledydd Ewrop sy'n parhau â threfn frenhinol; bydd rhai'n gweld ystyr a gwerth i'r drefn, tra bydd eraill yn dadlau fel gweriniaethwyr, ac yn ymwrthod â sofraniaeth teulu brenhinol. Pe byddai modd cynnal arolwg ymhlith aelodau eglwysi Presbyteraidd a Bedyddiedig, heb anghofio'r Annibynwyr a'r cyrff crefyddol eraill yng Nghymru, prin y gallem ddisgwyl mwyafrif amlwg o blaid nac yn erbyn.

Hyd yma, bydd y mwyafrif o'r cymunedau trefol a llu o ddeiliaid strydoedd unigol yn gweld y gwasanaeth i goroni Siarl III yn fodd o fwynhau parti, heb lawer o farn y naill ffordd neu'r llall am arwyddocâd y coroni. Beth oeddech chi'n ei wneud ar 6 Mai 2023? Ai diddordeb hanesyddol oedd hyn oll neu achlysur teledu difyr a dramatig? Ai dathliad oedd achlysur coroni'r brenin, fel y bu dathlu dyrchafiad tîm pêl-droed Wrecsam i'r ail adran yng nghyngrair pêl-droed Lloegr, neu brofi gwefr cyfamod rhwng brenin a'i ddeiliaid?

Bydd y sawl sy'n dadlau o blaid y frenhiniaeth yn ei gweld fel parhad hanesyddol yng ngwledydd Prydain, a bod modd olrhain achau'r teulu brenhinol yn ôl dros y cenedlaethau. Nid yw'r frenhiniaeth yn rhan o wleidyddiaeth bleidiol, ond yn ymgorfforiad o'r wladwriaeth, ac yn amddiffynnydd urddas, cyfiawnder a threfn, llais dros bawb, ac yn amddiffynnydd y ffydd.



Llun: https://unsplash.com/photos/ZBNr4T_4FLE?utm_source=email&utm_medium=referral&utm_content=photos-page-share

Mae i'r brenin fel person llawer o rinweddau i'w canmol, yn arbennig wrth ddadlau achos yr amgylchedd a hawliau lleiafrifoedd ym mhobman. Mae'n Gristion defosiynol sy'n dangos parch at grefyddau eraill y byd.

Bydd eraill yn debygol o ddadlau nad oes gan y syniad o frenhiniaeth le yng nghyd-destun gwladwriaeth fodern, a bod pawb yn gyfartal gerbron Duw a dyn. Bu rhannu pobl yn haenau neu ddosbarth yn nodwedd o bob cymuned, ac nid oes byth degwch mewn sefyllfa o'r fath. Yn aml, bydd gan gyfoeth neu statws swydd, gwaed teulu neu ddylanwad y gorffennol, lawer i'w wneud â hynny, ac nid oes fyth fodd i'r difreintiedig gydeistedd â'r breintiedig. Wrth goroni brenin, bydd yr haenau cymdeithasol o reidrwydd yn dilyn.

Darllenwn fod gan yr Israeliaid gynt awydd i efelychu cenhedloedd eraill a sefydlu brenin. Yn 1 Samuel deallwn mai dewis yr Arglwydd oedd y brenin, a hynny gan gydnabod eu gwendidau. Pilat ddewisodd osod arysgrif ar groes Iesu yn dweud mai 'Hwn yw brenin yr Iddewon'.

Beth bynnag fyddai'r drefn o ddewis llywodraeth mewn unrhyw gyfnod neu wladwriaeth, byddai'r llysoedd crefyddol yn datgan pwy oedd wedi cyflwyno'r credo, ac yn y tair crefydd sy'n arddel undduwiaeth, byddai'r person sy'n sylfaen y grefydd yn bopeth i'r sawl sy'n arddel y ffydd honno.

A yw defnyddio'r gair 'brenin' wrth gyfeirio at Iesu yn dyrchafu Iesu yn ein cyfnod ni? Dibynna'r ateb ar ein deall o natur brenin a nodweddion brenhiniaeth. Os rhywbeth arwynebol yw ymlyniad deiliaid gwledydd Prydain tuag at y frenhiniaeth bellach, mae'n rhesymol dadlau bod teyrngarwch llawer sy'n galw eu hunain yn Gristnogion yn simsan, a dweud y lleiaf, erbyn hyn. Pan fyddwn yn canu 'Coronwch Ef yn ben', ac 'Y Brenin Tlawd', byddai'n dda i ni osgoi cymysgu delweddau wrth sôn am frenhinoedd, gan gofio cyfieithiad rhagorol Siôn Aled, o eiriau Graham Kendrick:

> Yn isel fryd gweini wnawn
> a'i ddewis ef yn Arglwydd pawb,
> wrth estyn llaw at fy mrawd
> cydnabod wnawn ein brenin tlawd.
> (*Caneuon Ffydd*, rhif 276)

*Denzil John*

# Pabell yr Eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd

Eleni cynhelir Eisteddfod yr Urdd rhwng 28 Mai a 3 Mehefin, a hynny yn Llanymddyfri yn sir Gaerfyrddin. Yn ôl yr arfer, fe fydd pabell yno yn enw'r enwadau, a hynny o dan nawdd Cytûn a'r Cyngor Ysgolion Sul.

Byddwn hefyd yn cydweithio â Chymdeithas y Beibl a Chymorth Cristnogol er mwyn cynnig ystod eang o weithgareddau. Bydd chwe ardal weithgaredd o fewn y stondin, gyda chrefft Arch Noa, Lego, Cnex, Jenga, cornel stori, cyfle i wneud bathodyn, yn ogystal â chyfle i gyfrannu at broject Cymorth Cristnogol drwy greu murlun. Bydd diodydd a fferins ar gael am ddim yn ystod y dydd, ac arddangosfa o waith llaw gan rai o ysgolion Sul yr ardal.

Bydd gan y Cyngor Ysgolion Sul ddewis helaeth o adnoddau ar werth hefyd, gan gynnwys llyfrau gwasanaeth, Beiblau i bob oed a dewis da o werslyfrau ysgol Sul.

Cofiwch hefyd am yr oedfa fore Sul, 28 Mai, fydd yn cael ei chynnal yng Nghanolfan Hamdden y dre. Mae hon yn oedfa o dan arweiniad plant ac ieuenctid ysgolion Sul y sir, ac mae croeso i bawb ymuno.

Efallai hefyd y medrwch chi fanteisio ar y cyfle, tra byddwch yn yr ardal, i fynd i chwilio am y cerflun newydd a gafodd ei ddadorchuddio'n ddiweddar i goffáu William Williams, Pantycelyn. Mae'r cerflun i'w weld yng nghanol tref Llanymddyfri.

Cysylltwch ag Aled Davies: aled@ysgolsul.com am ragor o wybodaeth.

# Arddangos hyder cenhadol Wcráin

'Os ydych am i rywbeth gael ei wneud, gofynnwch i berson prysur!' Pe byddech chi'n Wcreiniad ac yn byw rywle yn Ewrop, beth fyddai'r prif bwyntiau ar eich gwefus weddigar ddiwedd Ionawr a dechrau mis Chwefror eleni? Ymbil am heddwch, eiriol dros y dioddefwyr yn y wlad, gofyn am fendith Duw ar y ffoaduriaid a llawer deisyfiad arall.

Ar wefan Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop, ceir lluniau cannoedd o weinidogion ac arweinwyr Wcreinaidd eraill ac adroddiad o ddwy gynhadledd, y naill yng Ngwad Pwyl yn niwedd Ionawr a'r llall yn yr Almaen ddechrau Chwefror, yn gweddïo am lwyddiant cenhadol yn Ewrop. Mae'n siŵr fod eu gweddïau'n cynnwys ystod eang o ddeisyfiadau, ond tynnu sylw at sêl genhadol y Bedyddwyr hyn a wna'r erthygl ar wefan y Ffederasiwn. Themâu'r cynadleddau oedd: 'Peidiwch ag anghofio'ch galwedigaeth', a 'Cenhadu yn Ewrop'.

Roedd gan Undeb Bedyddwyr Wcráin 22 o genhadon cyn i ymosodiad Rwsia ddigwydd, ac mae'r gweinidogion Bedyddiedig sydd wedi gadael Wcráin yn derbyn bod eu gwaith yn parhau, er bod hynny mewn ardaloedd oddi allan i'w mamwlad. Nodwyd yn y ddwy gynhadledd fod aelodau Undeb Bedyddwyr Wcráin yn dymuno gweld ei gweinidogion yn dychwelyd unwaith bydd y rhyfel ar ben. Bydd eu hangen i aildanio cenhadaeth y Bedyddwyr yn y wlad, ac i gynorthwyo yn y gwaith o ddwyn pobl ynghyd ac ailadeiladu'r cymunedau yn gyffredinol, a'r eglwysi'n benodol.



Arweinwyr Undeb Bedyddwyr Wcráin yn rhoi bendith mewn cynhadledd yng Ngwlad Pwyl (Llun drwy garedigrwydd Daniel Trusiewicz)

Tra bydd y rhyfel yn parhau, un o brif dargedau cenhadaeth Bedyddwyr Wcráin yw sefydlu eglwysi ledled Ewrop i rai sy'n medru'r iaith Wcreineg. Maent eisoes wedi sefydlu rhwydweithiau sy'n cysylltu'r ffoaduriaid gyda'i gilydd gan gynnal yr hunaniaeth gartref, a gofynnir iddynt feddwl am ffyrdd o godi arian er mwyn hyrwyddo'r gwaith o ailadeiladu'r capeli sydd wedi eu chwalu yn ystod y bomio. Gwêl Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop y bydd natur genhadol yr Wcreiniaid yn newid agweddau'r Undebau Bedyddiedig tuag at genhadaeth gartref a thramor. Sylweddolwyd eisoes fod fflam y ffydd Gristnogol yn tanio ffydd ar draws Ewrop, a bod Iesu yn cael ei ogoneddu tra mae'r bomiau'n tanio yn ninasoedd Wcráin.



Dros 200 o Wcreiniaid wedi ymgasglu yn yr Almaen (Llun drwy garedigrwydd Undeb Bedyddwyr Wcráin)

## Medalau Gee 2023 – dyddiad cau enwebiadau

Bob blwyddyn cyflwynir medalau Gee i ffyddoniaid yr ysgol Sul yng Nghymru – i'r rhai sydd dros 75 oed ac wedi bod yn ffyddlon i'r ysgol Sul, un ai fel athrawon i blant ac ieuenctid neu fel athrawon a disgyblion mewn dosbarth oedolion. Yn ogystal â ffyddlondeb i'r ysgol Sul, rydym hefyd yn cynnwys dosbarthiadau Beiblaidd a grwpiau astudiaeth.

Cyflwynir y medalau yn ystod mis Medi bob blwyddyn, ac i dderbyn medal eleni bydd angen i bob ffurflen gais fod mewn llaw erbyn **30 Mehefin**. Mae manylion llawn a ffurflen gais ar gael o wefan www.ysgolsul.com.

Tybed oes yna rywrai yn eich eglwys leol chi sy'n gymwys i dderbyn y fedal eleni?

Cysylltwch ag Aled Davies: aled@ysgolsul.com am ragor o wybodaeth.

# Ffarwelio a diolch am gyfraniad a gweinidogaeth y Parch. Ddr Rhodri Glyn ym Mro Aled

Roedd nos Sul, 30 Ebrill, yn achlysur chwerw felys yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan, wrth i Ofalaeth Gydenwadol Bro Aled ymuno i ffarwelio a diolch am gyfraniad a gweinidogaeth y Parch. Ddr. Rhodri Glyn, ei wraig, Gwenno, a'u plant, Llio a Lleucu.

'Ond i Dduw y bo'r diolch yr hwn sy'n rhoi'r fuddugoliaeth i ni trwy ein Harglwydd Iesu Grist' (1 Corinthiaid 15:57) – dyma'r adnod a ddewisodd Rhodri i fod ar flaen taflen yr oedfa, a dyma'r sicrwydd oedd yn llifo drwy gydol y gwasanaeth!

Roedd 'diolch' yn destun amlwg, wrth gwrs, a'r diolch pennaf i Dduw am arwain Rhodri i Fro Aled bron i bedair mlynedd ar ddeg yn ôl, yn gyntaf fel myfyriwr DAWN Cymru. Yna, yn 2011 cafodd ei benodi'n Gynorthwyydd Gweinidogaethol, cyn dod yn Weinidog yn 2016.

Cafwyd diolchiadau cynnes a didwyll i Rhodri am ei weinidogaeth werthfawr ym Mro Aled, yn Henaduriaeth Dyffryn Clwyd a Chyfundeb Annibynwyr Gorllewin Dinbych a Fflint. Bu'n Llywydd yr Henaduriaeth o 2020 hyd at Ionawr 2023 ac yn Gadeirydd y Cwrdd Chwarter yn 2019.

Cyflwynodd Mair Owen, Cynorthwyydd Bugeiliol ac Ysgrifennydd y Fro, ddiolch ar ein rhan fel Gofalaeth gan roi darlun cyflawn o gymeriad a rhinweddau arbennig Rhodri. Doeth, cadarn, amyneddgar, caredig, gonest, agored a deallus yw rhai o'r geiriau a ddefnyddiwyd i'w ddisgrifio. Gwerthfawrogwyd ei holl waith – yr amrywiol gyfarfodydd ganol wythnos, ei weinidogaeth i blant ac ieuenctid y fro, a'i waith diflino yn ystod Covid. Fe ddangosodd wir gariad tuag atom gan fod yn esiampl i ni i gyd. Nododd Mair iddi fod yn bleser ac yn fraint cael cydweithio â Rhodri.

Darlun o fyd chwaraeon gawsom gan Rhodri wrth iddo grynhoi ei amser yn ein plith ac edrych i'r dyfodol. Daeth yn ddiwedd un tymor ac yn ddechrau tymor newydd: amser i bwyso a mesur. Ar un llaw, mae siom a thristwch am gyflwr ein heglwysi yng Nghymru gan na welsom dröedigaethau na'r fendith y dymunem ei gweld.



Rhodri a Gwenno Glyn, Llio a Lleucu



Aneurin Owen, Rhodri a Gwenno Glyn, Mair Owen, Llio a Lleucu

Ydyn ni'n ufudd go iawn? Ydyn ni'n gwneud beth mae Duw yn ein galw i'w wneud? Ydyn ni'n gweddïo ddigon? Cwestiynau priodol i bob Cristion ei holi.

Ond, ar y llaw arall mae ffydd yn rhoi sicrwydd i ni: 'Mae Iesu Grist yn fuddugol!' Mae Iesu Grist yn parhau ar ei orsedd, mae gair Duw mor bwerus, mor angenrheidiol, mor amserol ag y buodd erioed, ac mae Duw ar waith.

Diolchodd Rhodri yn arbennig i Gwenno am ei chefnogaeth ddiwyro, am y cydweithio sydd wedi bod trwy gydol ei amser ym Mro Aled ac am bob braint o gael gweinidogaethu a bod wrth ein hochr trwy daith bywyd.

Syndod yn ystod y gwasanaeth oedd clywed baled gan 'Y Cwmwl Tystion' yn datguddio pam yn wir yr aeth Rhodri, Gwenno a Llio i Lundain yn 2015! Daeth hefyd dri o gymeriadau digri heibio o Lundain bell i weld 'Rodri'. Roedd Del Boy, Rodney ac Uncle Albert wedi cyrraedd Capel Coffa Henry Rees ac wedi meddwl dechrau busnes golchi 'chandeliers', neu werthu rhyw lun gan ddisgwyl gwneud ffortiwn!

Pregethodd y Parch. O. Aneurin Owen yn rymus o'r Gair (Exodus 17:8–16, Mathew 26:36–43 ac Effesiaid 6:10–20) gan roi her, rhybudd a gorchymyn i ni, Gristnogion, er mwyn ennill y frwydr yn erbyn drygioni! Fel roedd Moses angen help i gadw ei freichiau i fyny i ennill y frwydr ac i Dduw roi llwyddiant, mae angen i ni helpu ein Gweinidogion. Pan oedd Iesu mewn brwydr enbyd yng Ngethsemane, roedd y disgyblion yn cysgu! Rhaid i ninnau wisgo arfogaeth Duw heddiw i amddiffyn ein hunain a thrwy nerth yr Ysbryd ennill y frwydr. Offeiriadaeth weddigar ac optimistiaeth yw ein cyfrifoldeb i gynnal y rhai sy'n arwain.

Dymunwyd yn dda i Rhodri wrth iddo newid maes a dechrau fel Gweinidog yng Nghapel y Ffynnon, Bangor, ac yn cydlynu Rhwydwaith Daniel Rowland ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dymunir bendith Duw ar ei weinidogaeth ac edrychir ymlaen at glywed beth fydd Duw yn ei wneud yn y bennod nesaf yn mywydau'r teulu. Fel arwydd o werthfawrogiad y Fro cyflwynwyd rhoddion i Rhodri, Gwenno, Llio a Lleucu, ac ar derfyn yr oedfa cafwyd lluniaeth ysgafn yn y festri gyda thorri cacen arbennig, cyfle i hel atgofion, dymuno'n dda a ffarwelio.

*Haf Evans*

**ADNABOD** **Cymeriadau'r Hen Destament**

**ABRAHAM**

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 23 Pen-blwydd Eglwys yr Hen Destament

**Darllen: Genesis 17: 9–11, 23–7**

**(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 99 ac ymlaen)**

Yn ei esboniad ar yr adnodau hyn fe ddywed Derek Kidner, 'Yn yr ystyr fod y Pentecost yn ddydd pen-blwydd yr Eglwys, dyma ddydd pen-blwydd yr Eglwys yn yr Hen Destament'. Mae hyn yn ddeud annisgwyl braidd, er, wrth feddwl am le canolog yr arwydd yma o bobl y cyfamod yn y Beibl, mae'n hawdd deall y geiriau. Yn wir, mi fyddwch yn cofio bod trafodaeth am enwaediad wedi bod yn un o'r pynciau mwyaf yn ystod cyfnod yr Apostolion. Pam felly?

Rydym eisoes wedi edrych ar sawl agwedd o gyfamod yn hanes Abraham a lle canolog y syniad o gyfamod yn y Beibl. Yn awr, mae Abraham yn derbyn gorchymyn i ddefnyddio arwydd er mwyn ei atgoffa ef ac er mwyn cyhoeddi i'r byd addewid grasol Duw yn ei gyfamod â phobl: 'Sefydlaf fy nghyfamod yn gyfamod tragwyddol â thi, ac â'th ddisgynyddion ar dy ôl dros eu cenedlaethau, i fod yn Dduw i ti ac i'th ddisgynyddion ar dy ôl' (adn. 7). Fel arwydd o hyn mae Abraham i gymryd arwydd enwaediad, ac felly hefyd ei ddisgynyddion. O ran yr arwydd, mae yna arwyddocâd arbennig i'r ffaith ei fod yn gorchymyn torri oherwydd, fel y bu inni ddarganfod ynghynt wrth edrych ar bennod 15, roedd cyfamod bob amser yn rhywbeth oedd yn cael ei dorri – 'cut a covenant'.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r gorchymyn yn ddeublyg; hynny yw, yr oedd yn orchymyn i Abraham, ond hefyd i'w blant a'i deulu estynedig. Rydym yn gwybod am Abraham ei fod yn arwydd o ffydd oedd eisoes wedi ei hamlygu. Wrth ystyried y gwynfyd o adnabod maddeuant, mae Paul yn nodi:

'Y gwynfyd hwn, ai braint yn dilyn ar enwaediad yw? Oni cheir ef heb enwaediad hefyd? Ceir yn wir, oherwydd ein hymadrodd yw, 'cyfrifwyd ei ffydd i Abraham yn gyfiawnder'. Ond sut y bu'r cyfrif? Ai ar ôl enwaedu arno, ynteu cyn hynny? Cyn yr enwaedu, nid ar ei ôl. Ac wedyn derbyniodd arwydd yr enwaediad, yn sêl o'r cyfiawnder oedd eisoes yn eiddo iddo trwy ffydd, heb enwaediad. O achos hyn, y mae yn dad i bawb sy'n meddu ar ffydd, heb enwaediad, a chyfiawnder felly yn cael ei gyfrif iddynt. Y mae yn dad hefyd i'r rhai enwaededig sydd nid yn unig yn enwaededig ond hefyd yn dilyn camre'r ffydd oedd yn eiddo i Abraham ein tad cyn enwaedu arno' (Rhufeiniaid 4:9–12).

Nid rhywbeth oedd yn arwain at ffydd oedd yr enwaediad felly, ond, yn achos Abraham, rhywbeth oedd yn arwydd o'i ffydd. O ran y gorchymyn i enwaedu'r plant a'r 'teulu' estynedig, mae yna wahaniaeth amlwg. Yn achos y rhain, arwydd o berthyn i'r bobl sydd wedi ymddiried yw'r enwaediad, arwydd sy'n edrych ymlaen at y 'gwir enwaediad': 'Nid Iddew mo'r Iddew sydd yn y golwg. Nid enwaediad chwaith mo'r enwaediad sydd yn y golwg yn y cnawd. Y gwir Iddew yw'r Iddew cuddiedig, a'r gwir enwaediad yw enwaediad y galon, peth ysbrydol, nid llythrennol. Dyma'r un sy'n cael clod, nid gan bobl eraill, ond gan Dduw' (Rhufeiniaid 2:28–9).

Yma, mae Paul yn adleisio'r hyn yr oedd Duw wedi'i ddysgu i'w bobl drwy Moses a'r Proffwydi, e.e. 'Bydd yr ARGLWYDD dy Dduw yn enwaedu dy galon, a chalonnau dy ddisgynyddion, er mwyn iti garu yr ARGLWYDD dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid, fel y byddi fyw' (Deuteronomium 30:6) ac 'Ymenwaedwch i'r ARGLWYDD, symudwch flaengroen eich calon, bobl Jwda a thrigolion Jerwsalem' (Jeremeia 4:4). Mae'n amlwg yma nad oedd yr arwydd yn gwarantu y byddai hyn yn digwydd, oherwydd, yn adnod 23, fe glywn: 'Yna cymerodd Abraham ei fab Ismael' heb sôn am bawb arall oedd yn 'eiddo iddo'. Beth bynnag am y pawb arall, rydym yn gwybod bod Duw eisoes wedi dweud mai drwy Isaac y byddai'n sefydlu y llinach cyfamodol (adn. 21).

Tra mae enwaediad felly'n arwydd angenrheidiol ac yn arwydd i bob bachgen o fewn y 'teulu', eto rhaid deall nad oedd yn rhyw fath o weithred oedd yn newid rhywun yn y galon. Efallai mai Paul eto sy'n dod â ni agosaf at ddeall dirgelwch gras y nefoedd pan mae'n dweud am y Duw sy'n gosod rhai ar wahân, a braint hynny: 'Oherwydd y mae'r gŵr di-gred wedi ei gysegru trwy ei wraig, a'r wraig ddi-gred wedi ei chysegru trwy ei gŵr o Gristion. Onid e, byddai eich plant yn halogedig. Ond fel y mae, y maent yn sanctaidd' (1 Corinthiaid 7:14).

Rwy'n meddwl bod yr adnodau hefyd yn pwysleisio dau beth arall.

Yn gyntaf, mae'r adnodau'n milwrio yn erbyn yr unigolyddiaeth sydd mor greiddiol i'n dealltwriaeth o fywyd bellach, ond sy'n ddieithr i bobl y Beibl. Er mai galw unigolion i berthynas ag Ef y mae Duw, eto, mae penderfyniadau unigolion yn cael effaith ar y teulu, ac yn cael eu gwneud o fewn cyd-destun y teulu. Fe welwch fod pawb, bron, yn y Beibl yn cael eu diffinio mewn perthynas â phwy yr oeddent yn perthyn iddynt, i'r lle neu'r llwyth. Mae hyn hyd yn oed yn wir wrth gyflwyno Iesu ar ddechrau'r Efengylau.

Yn ail, gall teulu fod yn berthnasau biolegol a phobl eraill: 'Y diwrnod hwnnw enwaedwyd Abraham a'i fab Ismael; ac enwaedwyd gydag ef holl ddynion ei dŷ, y rhai a anwyd i'r teulu a phob dieithryn a brynwyd ag arian (adn. 26–7). Fel yr addawyd i Abraham y byddai 'cenhedloedd y ddaear yn cael eu bendithio', felly hefyd mae'r Apostolion yn gweld: 'Ac y mae Duw, sy'n adnabod calonnau, wedi dwyn tystiolaeth iddynt trwy roi iddynt hwy yr Ysbryd Glân yr un fath ag i ninnau' (Actau 15:8). Gan fod yr Iesu wedi ei dorri, 'o dir y rhai byw, a'i daro am drosedd fy mhobl' (Eseia 53:8), gall pobl o bob cenedl berthyn i'r teulu hwn, oherwydd: 'enwaedwyd arnoch ag enwaediad nad yw o waith llaw, ond yn hytrach o ddiosg y corff cnawdol; hwn yw enwaediad Crist '(Colosiaid 2:11), yr un gafodd ei dorri yn y cyfamod er ein mwyn ni.

1. Gan feddwl am y cwestiwn ar ddiwedd y paragraff cyntaf, beth sy'n achosi fwyaf o drafodaeth yn ein heglwysi heddiw?
2. Pa mor bwysig yw cael arwyddion gweledol a chorfforol o bethau sy'n realiti ysbrydol?
3 O ystyried yr hen obsesiwn Cymreig o fynnu cael gwybod pwy ydym yn perthyn iddyn nhw – a welwn ni lai o bwyslais ar unigolyddiaeth a mwy ar y teulu cyfunol yn ein heglwysi?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 14 Mai, am 7.30yh**
Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
Y cerddor Eilir Owen Griffiths sy'n agor ei galon am ei frwydr gydag iselder mewn cyfweliad teimladwy gyda Lisa Gwilym

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 14 Mai, am 7:30yb a 4:30yp**
Elen Ifan yn trafod emynwyr sydd wedi cyfrannu cyfieithiadau a gweithiau gwreiddiol i'n traddodiad emynyddol

***Sul, 14 Mai, am 12:00yp***
Oedfa dan arweiniad Staff Cymorth Cristnogol

# Llongyfarch

Yn y Gymdeithasfa yn y De (Sasiwn) a gynhaliwyd ar 3 Mai 2023 yng Nghapel y Crwys, Caerdydd, cafwyd orig hyfryd yng ngwasanaeth y cymun. Mae'n arferiad gennym i longyfarch blaenoriaid a gweinidogion sydd wedi gwasanaethu o fewn yr enwad am 40, 50 neu 60 o flynyddoedd.

Eleni llongyfarchwyd y blaenoriaid canlynol. O Henaduriaeth Morgannwg Llundain, llongyfarchwyd Miss Wendy Williams, Soar Pontardawe, am 50 mlynedd o wasanaeth. Ac o Henaduriaeth Myrddin llongyfarchwyd Mrs Helen Gibbon, Babell Zion Newydd, Pensarn; Mrs Pat Morgan, Babell Zion Newydd, Pensarn; Mrs Joy Williams, Soar, Pontyberem, a Miss Heulwen Ebenezer, Capel y Drindod, Cross Hands, am 40 mlynedd o wasanaeth.

Llongyfarchwyd y Parch. Ddr Watcyn James am 40 mlynedd o wasanaeth, y Parch. Glyn Tudwal Jones, MA, Caerdydd am 50 mlynedd o wasanaeth, a'r Parch, Athro John Tudno Williams am 60 mlynedd o wasanaeth.



Y Parch Glyn Tudwal Jones, Caerdydd, yn mynegi ei werthfawrogiad o'r cyfle i wasanaethu'r Cyfundeb am 50 mlynedd

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Sut i ysgrifennu erthygl fer ddiddorol?

gyda John Roberts

Cyflwynydd a chynhyrchydd *Bwrw Golwg* ar BBC Radio Cymru

Dydd Mercher, 17 Mai

Eglwys Shiloh, Llanbedr Pont Steffan (SA48 7BJ)

10.00–13.00

Dim tâl ac yn cynnwys cinio (Anghenion deiet? Cofiwch ddweud!)

Archebu lle: rhys.jones@ebcpcw.cymru

Mwy o wybodaeth: gwynrhydderch@ebcpcw.cymru neu 07979860537



Yr Athro John Tudno Williams yn cael ei longyfarch gan y Llywydd, Mr Cliff Williams, ar ddathlu 60 mlynedd o wasanaeth i Eglwys Bresbyteraidd Cymru




# Gair y Dydd – gair o werthfawrogiad

Mewn oes sy'n cymryd cymaint o bethau'n ganiataol, onid hyfryd yw derbyn gair o ddiolch neu werthfawrogiad? Diolch yn fawr felly i Miss Eurwen Richards, Pen-y-bont ar Ogwr, am anfon y nodyn yma at bwyllgor *Gair y Dydd* yn ddiweddar:

> Pennawd y myfyrdod yn *Gair y Dydd* ryw bythefnos yn ôl oedd 'gwnewch'. Penderfynais ar y pryd taw dyna oedd 'job y dydd', ond nawr mae'n cael ei gyflawni … Roeddwn am anfon gair o ddiolch i chi a'r pwyllgor. Rwyf wedi cael bendith mawr o'r pytiau myfyrdod. Gwn pa mor anodd yw hi i gael rhywbeth addas a *fresh*, ac mae'r misoedd olaf hyn, yn fy nhyb i, wedi bod yn arbennig … Diolch i'r awduron, ond gwn nad oes dim yn digwydd heb gefnogaeth tu cefn. A dyna rwy'n teimlo rydych chi a'r pwyllgor yn ei wneud.

Fel y gŵyr y rhelyw ohonoch, dwi'n siŵr, llyfryn o fyfyrdodau defosiynol dyddiol yw *Gair y Dydd*, ac fe gaiff ei gyhoeddi gan banel cydenwadol bob tri mis (ers 1962!). Dyma'r unig gyhoeddiad o'r fath yn y Gymraeg. Gan mai awduron gwahanol sy'n gyfrifol am y myfyrdodau misol, ceir amrywiaeth eang o destunau a phrofiadau. Awduron y rhifyn cyfredol yw'r Parchg Emyr Gwyn Evans, y Parchg Dyfed Wyn Roberts a'r Dr Arfon Jones. Mae pob defosiwn dyddiol yn cynnwys darlleniad(au) Beiblaidd, myfyrdod a gweddi fer.

Mae modd tanysgrifio i dderbyn y llyfryn am flwyddyn am £10 trwy law




ein trysorydd, Mr David Glyn Williams: davidglynwilliams01@gmail.com.

*Eirian Dafydd*
*(ar ran y pwyllgor)*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## *Bod a byw*

**Emyn 609 'Am dy gysgod dros dy Eglwys'**

**Darllen – Salm 66:8–20**

### Gweddi

Arglwydd Dduw, diolchwn i ti a bendithiwn dy enw. Dyhead ein calonnau yw cael gweld a chlywed y byd yn grwn yn ymuno i'th foliannu a'th fendithio. Diolchwn i ti am dy eglwys ac am ei thystiolaeth yn ein gwlad i'th ras a'th gariad trugarog yn Iesu Grist. Rhyfeddwn am i ti roddi i ni gartref ymysg y byw. Ond rydym heddiw, Arglwydd, yn griddfan dan ein pwn. Cawsom ein profi, ein coethi, ein clymu mewn rhwydau o'n creadigaethau ein hunain. Dyhëwn am gael dod allan i lawnder dy fendith drwy'r Ysbryd Glân. Offrymwn i ti ein gweddïau ac aberth mawl ein calonnau. Cadw ni rhag ein llesgedd ac arbed ni, er mwyn dy enw. Tro atom ni oherwydd dy ffyddlondeb, a thro ninnau atat ti mewn edifeirwch ffydd. Arglwydd, clyw ein gweddi. Amen.

**Darllen – 1 Pedr 3:13–22**

### Bod a byw

I filoedd o ddilynwyr Iesu mae gwrthwynebiad yn brofiad dyddiol. Caiff yr erledigaeth ei pharchuso drwy fynnu bod presenoldeb neu dystiolaeth Gristnogol yn fygythiad i les cymdeithasol. I'r awdurdodau, pobl sy'n peri trafferth ydynt am eu bod yn mynnu bod yna werthoedd amgenach na'r gwerthoedd diwylliannol neu grefyddol sy'n llywodraethu ar y pryd.

### Wynebu gwrthwynebiad

Sut ydym i ymagweddu bryd hynny? Dyna yw'r cwestiwn y mae Pedr am geisio cynnig ateb iddo. Mae'n anodd i rywun ddychmygu y gallai unrhyw un gael ei gondemnio am 'fod yn selog dros ddaioni' (adn. 13). Ond gall ceisio byw yn 'achos cyfiawnder' ddenu gwg yr awdurdodau. Does dim ond angen enwi Dietrich Bonhoeffer, Martin Luther King neu Victor Romero i feddwl am bobl ddioddefodd dros gyfiawnder.

Ond fe aiff y Testament Newydd ymhellach na dweud bod dioddef dros gyfiawnder yn bosibilrwydd. Yn ôl Pedr, 'gwyn ei[n] byd' ydym os daw gwrthwynebiad ar sail dilyn Iesu i'n rhan.

Aeth yr Apostolion yn llawen o ŵydd y Sanhedrin, er iddynt gael eu fflangellu, am iddynt gael eu 'cyfrif yn deilwng i dderbyn amarch er mwyn yr enw' (Actau 5:41). Onid oedd Iesu ei hun wedi dweud mai gwyn fyddai byd y Cristion oedd yn cael ei erlid o achos cyfiawnder er ei fwyn ef? Hynny yw, os oedd y cyhuddiadau i'w herbyn yn gelwyddog (Mathew 5:12)! Yn wir, meddai, 'Os erlidiasant fi, fe'ch erlidir chwithau' (Ioan 15:18–21).

### Ymateb cadarnhaol

Mewn amgylchiadau o'r fath fe fyddai'n rhwydd arswydo a byw yng nghysgod ofn. Ond nid drwy edrych ar y gwrthwynebwyr, na chan edrych am wrthwynebiad, y mae'r Cristion i fyw ei fywyd.

Yn hytrach, 'byddwch yn selog dros ddaioni ... Peidiwch â'u hofni hwy. Peidiwch â chymryd eich tarfu.' Ni ddylai'r Cristion adael i ddisgwyliadau ei elynion ddiffinio'r hyn a ddylai fod. Pobl ydym sy'n rhoi ein bryd ar 'ddaioni', ar ymarfer 'addfwynder' pwyllog, gan gadw ein cydwybod yn lân.

Gall unrhyw un a geisiodd weithredu fel hyn dystio nad rhinweddau goddefol mo rhinweddau o'r fath!

### Gobaith

A phan fydd pobl yn ceisio eglurhad am y gwerthoedd hyn, ein braint fydd egluro'r 'gobaith' a'r 'etifeddiaeth' sy'n eiddo i ni yn atgyfodiad Iesu Grist, a thrwyddo (1 Pedr 1:3). Newyddion da i'w rhannu yw ein ffydd. Parchedig ofn yw mesur ein haeddfedrwydd.

### Canolbwynt ffydd – Iesu Crist

Yn ôl yr hanes (chwedlonol o bosib), gofynnwyd i Martin Luther pam ei fod yn mynnu atgoffa'i gynulleidfa yn wythnosol o rinwedd ac aberth Iesu Grist. Ei ateb oedd hyn: 'Pe na byddech mor gyflym i'w hanghofio, fyddai dim angen i mi eich atgoffa mor aml!'

Y mae croes a dioddefaint yr Arglwydd Iesu Grist 'dros bechodau' yn ddigwyddiad un waith ac am byth. Y mae aberth Crist, fel yr hwn a ddioddefodd yn ein lle, yn gwbl unigryw. Nid oes feddyginiaeth arall, wedi ei darparu gan Dduw, ar ein cyfer. Ef, yr 'un cyfiawn' a roddodd ei gyfiawnder drosom, i'n gwisgo gerbron y Tad, gyda harddwch ei gyfiawnder.

### Patrwm ffydd – Iesu Grist

Iesu Grist ei hun felly, trwy ei aberth a'i gyfiawnder, sydd yn ein tywys ac yn ein cyflwyno i Dduw. Ef, nid arall, yw'r concwerwr. Ef yw pregethwr ffydd a chynnwys ei neges ei hun. Trwy ei ddioddefaint daeth gobaith i'r rhai mewn caethiwed. Yn nyddiau Noa darparwyd arch i gadw pobl yr Arglwydd; mae addewid Iesu Grist i bawb sy'n credu ynddo fel 'arch i gadw dyn yw Duw'.

Dioddefodd Iesu er mwyn gwahodd, er mwyn cyflwyno, er mwyn cyhoeddi, er mwyn arddangos cariad Duw. Drwy ein cerddediad cywir, a hyd yn oed ein dioddefaint Crist debyg, agorir y drws i gyhoeddiad y newyddion da.

### Bedydd

Trwy ffydd cawsom ein galw i berthynas â Duw; arwydd o hynny yw ein bedydd. Y mae ein bedydd yn arwyddo ein hachubiaeth drwy Iesu Grist. Nid *nifer* y rhai sy'n credu yw mesur ei ddilysrwydd. Addewid Duw a'n hymrwymiad iddo, drwy ffydd, yw'r hyn sy'n ein hachub. Drwy ffydd daw arwydd allanol yn realiti mewnol.

Caed digon o sectau neu o grefyddau ar hyd y canrifoedd oedd yn cynnig ymdriniaeth lem o'r corff fel modd i drin 'y cnawd'.

Wrth ddod at Iesu Grist, dewiswyd ffordd wahanol o fyw gennym. Y mae ein bedydd yn arwyddo mwy nag awydd 'i fwrw ymaith fudreddi'r cnawd'.

Y mae ein bedydd yn *flaenffrwyth* ein hawydd i fyw er ei fwyn. Mae'n *flaen daliad*, yn ernes, yn sicrwydd o'n hawydd ffaeledig i gyflawni ewyllys yr Arglwydd. Mae'n a*ddewid* gennym nad ydym am i'n gwerthoedd gael eu siapio yn bennaf gan leisiau neu gan werthoedd y rhai fyddai am wrthwynebu'r ffydd. Mae'n *arwydd o* 'ewyllys i fyw mewn cydwybod dda gerbron Duw'.

### Bydolwg

Y mae ein golwg ar Iesu, nid ar y byd: ar gerdded yn gywir gan wneud daioni, gan sancteiddio Crist yn Arglwydd yn ein calonnau.

Sail yr ymwybyddiaeth honno yw 'atgyfodiad Iesu Grist'. Rhodio, gan syllu arno ef, sydd wedi 'mynd i mewn i'r nef' yw *cyfrinach* ein bywyd. Ei ogoniant 'ar ddeheulaw Duw' yw *canolbwynt* ein bywyd. Ei fuddugoliaeth dros 'angylion a'r awdurdodau a'r galluoedd [sydd] wedi eu darostwng iddo' yw *nerth a hyder* ein cerddediad daearol. Ef yw ein haddoliad a'n llawenydd.

### Gweddi

Gwyddost, Arglwydd, gymaint y cawsom ein caethiwo gan ein hymlyniad wrth sefydliadau, adeiladau, neu draddodiadau a etifeddwyd gennym. Caniatâ i ninnau sancteiddio Crist yn Arglwydd gan rodio yn ei bresenoldeb, a'i wasanaethu'n llawen bob dydd.

**Emyn 721 'O na bawn yn fwy tebyg'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru